’Rwy’n dy garu, ti a’i gwyddost

Caneuon Ffydd: Rhif 315

’Rwy’n dy garu, ti a’i gwyddost,
’rwy’n dy garu, f’Arglwydd mawr;
’rwy’n dy garu yn anwylach
na’r gwrthrychau ar y llawr:
darllen yma
ar fy ysbryd waith dy law.

Fflam o dân o ganol nefoedd
yw, ddisgynnodd yma i’r byd,
tân a lysg fy natur gyndyn,
tân a leinw f’eang fryd:
hwn ni ddiffydd
tra parhao Duw mewn bod.

Ble’r enynnodd fy nymuniad?
Ble cadd fy serchiadau dân?
Ble daeth hiraeth im am bethau
fûm yn eu casáu o’r blaen?
Iesu, Iesu,
cwbwl ydyw gwaith dy law.

Dymuniadau pell eu hamcan
’rwy’n eu teimlo yno’i ’nglŷn;
dacw’r ffynnon bur tarddasant -
anfeidroldeb mawr ei hun:
dyma ’ngobaith
bellach byth y cânt barhau.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Wrth fynegi ei deimladau a’i brofiadau ef ei hun yn ei emynau, y mae William Williams yn rhoi mynegiant i deimladau cymaint o’i gyd-Gymry a’i gyd-Fethodistiaid a oedd wedi profi gwres Diwygiad Mawr y ddeunawfed ganrif yng Nghymru.

Yn yr emyn hwn mae Pantycelyn yn ei gynnig ei hun yn agored i’w Arglwydd i ‘ddarllen yma ar fy ysbryd waith dy law’. Nid cariad wedi ei goleddu a’i ymborthi ynddo’i hun sydd ganddo tuag at ei ‘Arglwydd mawr’, ond cariad sydd â’i darddiad yng Nghrist ei hun.

Cafodd yr emynydd ei fagu ar aelwyd Gristnogol a’i rieni yn gefn i achos Annibynnol Cefnarthen hyd nes i athrawiaeth Arminaidd gael ei dwyn i mewn i’r eglwys, a hwythau ac eraill yn gadael i sefydlu eu hachos eu hunain. Codwyd capel i’r achos hwnnw ar ran o dir Pantycelyn a roddwyd gan Dorothy, mam William Williams. Cafodd fanteision addysg hefyd yn academi Llwynllwyd a oedd yn enwog am ei haddysg yn y dyddiau hynny,

ond nid hyn i gyd a'i cymhwysodd ar gyfer gwaith mawr ei fywyd: y pregethu, y cynghori, y llenydda a'r barddoni. Rhoddwyd ei ddoniau oll ar waith i'r un pwrpas o glodfori Iesu mawr wrth i'r 'fflam o dân' honno 'o ganol nefoedd' losgi ei 'natur gyndyn' a llenwi ei 'eang fryd'.

Dyma brofiad oedd yn gyffredin i gynifer o ddychweledigion y cyfnod hwn fel mai yn hawdd y gallent unieithu â phrofiad Williams ei hun, ac fe rydd fynegiant i syndod y profiad hwnnw yn y cwestiynau: 'Ble'r enynnodd fy nymuniad? Ble cadd fy serchiadau dân?' Daeth tröedigaeth Williams ar ryw fore Sul, mae'n debyg, yn ystod 1738 pan drechwyd ef gan ei chwilfrydedd ei hun a mynd i wrando ar Howel Harris, lleygwr cyffredin, yn pregethu ym mynwent Talgarth. Dyma beth na welwyd mo'i debyg cyn hyn, a heblaw hynny yr oedd yna sôn am effeithiau mawr a dieithr yn dilyn ei bregethu. Tua dwy flynedd oedd ers i Harris ddechrau pregethu'n agored fel hyn, ond mae'r bore arbennig hwnnw y bu wrthi ym mynwent Talgarth ger ei gartref yn Nhrefeca yn sicr yn un a gofnodwyd yn nyddlyfr y nef, gan mai dyna pryd y gwnaeth yr Ysbryd Glân ei waith mawr o aileni William Williams Pantycelyn. Mae Williams yn canu i'r bore hwnnw yn Nhalgarth yn ei farwnad i Harris:

Dyma'r boreu, fyth mi gofia',
Clywais innau lais y nef;
Daliwyd fi wrth wŷs oddi uchod
Gan ei sŵn dychrynllyd ef …

Cydnabod gwaith yr Ysbryd arno y diwrnod hwnnw ym 1738 ac oddi ar hynny y mae Williams drwy'r emyn hwn, felly, yr Ysbryd hwnnw sydd yn ein cymell yn reddfol i alw Duw yn Dad inni ac yn ein gwneud yn blant iddo … trwy fabwysiad, ac yn yr Ysbryd yr ydym yn llefain, '"Abba! Dad"' (Rhuf. 8:15).

GWEDDI

Abba! Dad! Ti sy'n tanio fy serchiadau ac yn peri fy mod yn cael dy adnabod di fel Tad yn y sicrwydd hyfryd hwnnw iti fy mabwysiadu'n blentyn i ti dy hun trwy waith dy Ysbryd Glân. Er mwyn dy Fab. Amen.